Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 283 (Cymru) - 28 Hydref 2020

## Etholiadau mis Mai 2021: cyhoeddi adnoddau i gefnogi gweithgarwch cyfathrebu lleol

Fel y nodwyd ym Mwletin 281, rydym yn mabwysiadu dull graddol o ran ein gweithgarwch cyfathrebu ar gyfer etholiadau mis Mai 2021 fel y gallwn ymateb i amgylchedd cyfnewidiol, ar yr un pryd â chefnogi ein hystod eang o randdeiliaid.

Yn unol â'r cynlluniau rydym wedi eu hamlinellu ar gyfer Cam 1, rydym wedi creu set o adnoddau i gefnogi eich gwaith ar lefel leol wrth godi ymwybyddiaeth ynghylch y dewisiadau sydd ar gael i bobl o ran sut i bleidleisio. Mae hyn yn ymateb i drafodaethau ar draws y gymuned etholiadol, ac awydd dros negeseuon clir a chyson i bleidleiswyr.

Yr hyn y mae pleidleiswyr am ei wybod:

- bydd gorsafoedd pleidleisio yn llefydd diogel i bleidleisio
- bydd ystod o ddewisiadau pleidleisio
- dylai'r rheiny y byddai'n well ganddynt bleidleisio trwy'r bost wneud cais yn gynnar

Mae'r adnoddau'n cynnwys fersiwn sy'n cwmpasu'r tair neges allweddol, yn ogystal â fersiynau gyda phob neges ar wahân, er mwyn rhoi hyblygrwydd i chi o ran sut byddwch yn hyrwyddo'r negeseuon yn lleol.

Mae'r adnoddau'n cynnwys:

- templed datganiad i'r wasg
- dogfen Cwestiynau Cyffredin
- delweddau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- baneri gwe (MPU)
- posteri

Rydym hefyd wedi darparu canllaw gosod logo i'ch cefnogi wrth ychwanegu eich logo eich hunan i'r delweddau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'r gwaith celf ar gyfer posteri.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2021: cyhoeddi adnoddau i gefnogi gweithgarwch cyfathrebu lleol**

Gwybodaeth ynghylch yr adnoddau codi ymwybyddiaeth am ddewisiadau pleidleisio ar gyfer etholiadau mis Mai 2021, a dolenni atynt

Rydym yn cyhoeddi bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. **Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n *Bwletinau Gweinyddu Etholiadol*.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd**

Megis bob tro, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk a byddwn yn hapus i helpu.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2020

**(https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio** unrhyw bryd.